*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **20 Mawrth 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pennaeth Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Adolygiad Blynyddol o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at lunio diwygiad drafft 2023-24 o Gynllun Corfforaethol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) 2021-24, i'w gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Ebrill 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol tair blynedd ar gyfer 2021-24 lle nododd ei saith amcan gwella a llesiant hirdymor a'r camau y cynigiodd eu cymryd yn y flwyddyn gyntaf 2021-22.

3. Ym mis Hydref 2022, cytunodd yr Aelodau na fyddai'r amcanion gwella a llesiant yn newid ar gyfer y flwyddyn olaf 2023-24.

4. Mae Cynllun Corfforaethol 2023-24 wedi'i ddiweddaru i gynnwys y camau a gyflawnwyd yn 2022-23, ynghyd â'r blaenoriaethau yn erbyn pob amcan ar gyfer ei flwyddyn olaf.

**ARGYMHELLIAD**

5. Gofynnir i'r Aelodau nodi:

   i. y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at lunio diwygiad 2023-24 o Gynllun Corfforaethol 2021-24 a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r Awdurdod llawn ym mis Ebrill 2023; a
   ii. golwg adolygiad blynyddol Cynllun Corfforaethol 2023-24 ar ei newydd wedd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

**GWYBODAETH**

6. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi eu hamcanion gwelliant yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'u hamcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod mae'r rhain yn cael eu trin fel yr un peth.

7. Mae’r heriau allweddol sy’n wynebu’r Awdurdod wrth iddo symud i flwyddyn ariannol 2023-24 yn parhau. Mae'r rhain yn ymwneud ag:

- argaeledd criwiau tân ar-alwad;
- cynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a
- bod â digon o gapasiti corfforaethol i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol.

8. Bydd angen i adolygiad blynyddol 2023-24 yr Awdurdod o’i Gynllun Corfforaethol 2021-24, felly, wneud y canlynol:
   - cadarnhau amcanion gwella a llesiant hirdymor yr Awdurdod;
   - amlinellu pa gamau sydd ar y gweill i'w cyflawni neu eu datblygu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn 2023-24;
   - adlewyrchu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod, gan gynnwys y tair a gafodd eu hegluro drwy asesiad sefyllfa’r y Prif Swyddog Tân o’r sefyllfa;
   - ystyried canfyddiadau ac argymhellion Archwilio Cymru;
   - ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig lle mae amcanion yn cyd-fynd â chynlluniau'r Awdurdod ei hun;
   - sicrhau parodrwydd ar gyfer unrhyw welliannau yn y dyfodol sy'n deillio o Fframwaith Cenedlaethol wedi’i ddiweddaru ac unrhyw argymhellion ychwanegol gan swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a
   - chadw at gyllideb refeniw’r Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a’i gynllun ariannol tymor canolig.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun yn cadarnhau amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod ac yn egluro'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud tuag at eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cyllidebau cyfalaf a refeniw 2023-24 yr Awdurdod y cytunwyd arnynt yn adlewyrchu'r camau a gymerir yn ystod y flwyddyn honno tuag at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | Mae’n cefnogi’r gwaith o gydymffurfio â deddfwriaeth llesiant a chynllunio gwelliant. |
| Staffio | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn ni ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Lleihau’r risgiau o ddiffyg cydymffurfio cyfreithiol a methu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |